
PWYLLGOR SAFONAU, 08/06/26

Yn bresennol:-

Aelodau Etholedig:- Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

Aelodau Annibynnol: Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Ms Non Gibson, Mr Mark Jones, Mrs Carys Edwards a Mr Neil Hawkins.

Aelod Pwyllgor Cymunedol: Mr Richard Parry Hughes

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar a gynhaliwyd ar y 23 Chwefror, fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2025-26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

Cadarnhawyd bod yr adroddiad hwn yn eitem sy'n dod gerbron y Pwyllgor yn flynyddol, a'i fod bellach yn ofyn statudol i'w gyflwyno. Bwriadwyd ychwanegu gair o ddiolch i gyn aelod y Pwyllgor, a gair o groeso i aelodau newydd y Pwyllgor at ragair yr Adroddiad hwn yn ogystal.

Amlygwyd y bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn, ac y bydd yr Ombwdsman hefyd yn derbyn copi maes o law. Tynnwyd sylw at yr hyn gaiff ei nodi yn yr Adroddiad o ran dyletswyddau statudol Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â chynnal a hyrwyddo safonau ymddygiad aelodau'r grŵp. Cadarnhawyd bod y drefn hon yn dal i weithio, gan amlygu'r berthynas iach ac adeiladol sydd rhwng yr Arweinyddion Grwpiau a'r Swyddog Monitro wrth drafod unrhyw faterion sy'n codi. Ategwyd bod yr Arweinyddion Grwpiau yn cyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol er mwyn adrodd ar hyn yn ogystal.

Yn sgil Etholiad y Cyngor ym mis Mai 2027, trafodwyd y defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial, y cam ddefnydd posib ohono ac effaith hynny ar aelodau neu ddarpar aelodau etholedig. Pryderwyd y bydd rhai pobl yn betrusgar i ymgeisio o ganlyniad i'r risg o gael eich pardduo drwy'r modd hwn. Mewn ymateb, cadarnhawyd gan y Swyddog Monitro ei fod yn gynyddol ymwybodol o ddeallusrwydd artiffisial mewn sawl cyd-destun. Petai Aelod yn gwneud sylwadau amhriodol neu gamarweiniol ar y we, cafodd ei amlygu mai mater côd ymddygiad fyddai'r mater hwnnw yn ogystal. Datganwyd bod ymgyrchoedd yn mynd rhagddynt er mwyn cadw trafodaeth wleidyddol iach mewn perthynas â'r Etholiad, ond cydnabuwyd rôl gynyddol amlwg y cyfryngau cymdeithasol a deallusrwydd artiffisial o fewn cymdeithas bellach.

Cwestiynwyd y safonau y mae ymgeiswyr lle nad ydynt yn aelodau yn destun iddynt, gan bryderu nad oes proses i'w dal i gyfrif petai ymddygiad amhriodol. Mewn ymateb, dywedwyd mai mater cyfraith gyffredin fyddai hynny mae'n debyg. Ymhelaethwyd gan nodi bod cyfreithiau mewn perthynas â datganiadau camarweiniol gan ymgeiswyr, ond cydnabuwyd bod ffiniau rheoleiddio o amgylch materion fel hyn yn amrywiol ac yn amwys ar adegau. Soniwyd am y bwriad o ddod ag adroddiad ynglŷn ag anwytho aelodau i'r côd ymddygiad gerbron y pwyllgor hwn. Fel rhan o hynny, cynhigiwyd efallai y byddai posib rhoi amlinelliad o'r materion sy'n ymwneud â'r Etholiad fel bod y pwyllgor yn ymwybodol o'r drefn o ran y safonau cyhoeddus sydd ynghlwm ag Etholiad Llywodraeth Leol.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

6. POLISI A GWEITHDREFN CANU'R GLOCH I AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

Eglurwyd bod y polisi hwn yn deillio o'r ymateb i droseddau cyn brifathro Ysgol Friars a'r ymateb i adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Cyfeiriwyd at raglen waith eang y Cyngor fel rhan o'u hymateb, gan nodi bod adolygu a chryfhau'r gyfundrefn canu'r gloch yn un agwedd o hynny.

Aethpwyd ymlaen i esbonio bod y gyfundrefn canu'r gloch i staff yn deillio o Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 (Public Interest Disclosure Act 1998), gan nodi bod y ddeddf yn ychwanegu cymalau at y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth sy'n gosod gwarchodaeth statudol i staff sy'n canu'r gloch ar gam ymddwyn. Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi addasu a diwygio ei Bolisi Canu'r Gloch i staff er mwyn gwella agweddau megis y cyfathrebu, y dull ymateb, a'r dull adnabod canu'r gloch pan mae'n digwydd.

Datganwyd bod creu cyfundrefn a llwybr adrodd cyfrinachol i aelodau etholedig a chyfetholedig yn hanfodol o ran llywodraethant da a thryloywder. Pwysleisiwyd nad oes modd i'r Polisi hwn i aelodau fod yn unfath a Pholisi Canu'r Gloch i staff oherwydd bod y polisi i staff ynghlwm â chytundeb a pherthynas cyflogaeth staff. Esboniwyd fod y Cyngor wedi edrych ar gyfundrefnau cynghorau eraill yn ogystal wrth ddatblygu'r drefn canu'r gloch hon. Cadarnhawyd mai nod y polisi hwn yw amlygu i aelodau sut y gallent godi pryderon am gam ymddwyn difrifol neu droseddol, a gwneud hynny mewn awyrgylch o gyfrinachedd. Soniwyd bod modd i aelod godi unrhyw bryder gyda'r Swyddog Monitro, neu fod y polisi hefyd yn cynnig llwybrau amgen i gysylltu â swyddogion eraill pe byddai angen. Petai sefyllfa lle mae yno wrthdaro buddiannau ac ni all un o'r 3 prif swyddog rhestredig weithredu, adnabuwyd mai Archwilio Cymru felly fyddai'r pwynt cyswllt nesaf i godi pryder.

Nodwyd bod y polisi yn eithrio rhai materion oherwydd bod cyfundrefnau eraill ar gyfer codi pryderon o'r fath, a chyfeiriwyd at ran 3 o'r polisi lle gaiff y materion hyn eu rhestru. Crybwyllwyd dyletswydd statudol aelodau i ddod ag unrhyw fater o dorri'r côd ymddygiad i sylw'r Swyddog Monitro. O ran materion diogelu plant neu oedolion, adroddwyd y dylid cyfeirio pryderon yn unol â'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Sicrhawyd bod gwarchodaeth gyffelyb o ran cyfrinachedd o fewn y broses ddiogelu yn ogystal, ond amlygwyd y bydd yn ddibynnol ar natur y gwyn a'r angen am dystiolaeth.

Rhodddwyd gwybod i'r pwyllgor y bu i'r Swyddog Monitro ymgynghori â holl aelodau'r Cyngor ynglŷn â'r polisi drafft, a datgelwyd y bu iddo dderbyn 1 ymateb. Yn ychwanegol, adroddwyd bod adborth gan yr elusen *Protect* wedi'i dderbyn ar y polisi drafft, gyda'r newidiadau a'u hargymhellwyd ganddynt wedi eu hymgorffori yn y polisi hwn. Crybwyllwyd bod y rhestr a welir yn rhan 2.2 o'r polisi wedi'i gadw i mewn, gan ei fod yn rhoi cyd-destun o ba mor eang y gall pryderon o'r math hwn fod.

Amlygwyd y bydd y polisi'n mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod nesaf ac yna gobeithiwyd mynd ymlaen i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.

Diolchwyd am y gwaith gan nodi bod yr ymgynghori sylweddol sydd wedi cymryd lle yn rhoi sicrwydd i aelodau o ran y gwaith hwn.

Ategwyd y farn bod y polisi'n glir a mynegwyd balchder bod sgôp y polisi wedi'i ehangu.

Gofynnwyd am eglurder o ran ehangu'r polisi hwn i aelodau o'r cyhoedd. Eglurwyd bod y rhestr sydd yn rhan 2.2 o'r polisi yn tynnu sylw at bwy y gall fod gyfrifol am yr ymddygiad honedig y gallwch godi pryder amdano. Ymhelaethwyd ar hyn gan gyfeirio at ran 1.5 o'r polisi hwn sy'n cynnwys paragraff o gôd

ymddygiad ar gyfer aelodau, ac adrodd bod y rhestr yn rhan 2.2 y polisi hwn yn ychwanegu at hwnnw. Rhoddwyd enghraifft o sefyllfa lle fyddai pryder am aelod o'r cyhoedd yn cael ei godi o dan y polisi hwn gan aelod etholedig neu gyfetholedig; pe byddai aelod o'r cyhoedd yn cyflawni twyll yn erbyn y Cyngor. Pwysleisiwyd mai polisi ar gyfer aelodau sydd dan sylw, gan ychwanegu bod polisi canu'r gloch penodol ar gyfer staff ar wahân.

Holwyd am sefyllfa DBS y bobl hynny sy'n cludo plant i'r ysgol a chwestiynwyd faint o wybodaeth sydd gan y Cyngor am y bobl hyn. Cadarnhawyd bod gofyn cytundebol am wiriad DBS priodol mewn contractau tacsis er enghraifft, a chânt eu hadolygu bob 3 blynedd. Ychwanegwyd y caiff adroddiad ei gyflwyno'n gyson i'r Panel Strategol Diogelu am gyflawniad yn y maes hwn. Nodwyd gan y Swyddog Monitro mai eglurhad bras a roddwyd oherwydd nad yw'n gweithio yn y maes hwn o ddydd i ddydd, ond sicrhawyd bod cyfundrefn briodol yn y maes addysg i ddelio â hyn ac adnabuwyd bod cyfundrefn sy'n ymestyn i gontractwyr yn ogystal. Amlygwyd y pwyslais clir ar faterion diogelu ar draws y Cyngor, a bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno sy'n edrych ar y mater hwn.

PENDERFYNIAD

Cefnogi'r Adroddiad.

7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

Adroddwyd y caiff yr eitem gerbron ei chyflwyno'n rheolaidd i'r pwyllgor hwn, a bod yr adroddiad yn cwmpasu penderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Ehangwyd ar hyn gan nodi pwrpas yr adroddiad sef i roi gwybod i'r aelodau am y math o gwynion a gaiff eu gwneud, a sut y daw'r Ombwdsmon i benderfyniad ar yr achosion hyn.

Esboniwyd bod ychydig o'r ôl-groniad o achosion y nawr yn dechrau cael eu clirio gan yr Ombwdsmon. Cydnabuwyd bod yr amser y mae'n cymryd i gwynion gael eu hymchwilio yn achosi straen, a nodwyd bod sôn ganddynt am system i geisio blaenoriaethu achosion er mwyn cynorthwyo gyda hyn.

Amlygwyd y diffyg tystiolaeth sydd mewn perthynas â nifer o gwynion, a holwyd pam nad oes proses i gyflwyno unrhyw dystiolaeth wrth gyflwyno'r gwyn fel bod modd gweld a fyddai'r gwyn honno'n mynd ymhellach ac arbed ôl-groniad. Eglurwyd nad oes posib atal pobl rhag cyflwyno cwynion, a bod ffurflen ar y wefan i gasglu tystiolaeth. Ymhelaethwyd ar hynny gan nodi bod gan yr Ombwdsmon dîm sy'n asesu a chwynnu drwy'r cwynion, ac felly bod modd ffiltro rhai o'r cwynion sydd ddim yn mynd ymhellach oherwydd diffyg tystiolaeth yn gyflym. Ar y llaw arall, datganwyd mai'r achosion a gaiff eu hymchwilio'n llawn sy'n mynd ag amser.

Adnabuwyd bod aelodau nawr yn cael gwybod pan mae cwyn yn cael ei gwneud yn eu herbyn, yn dilyn newid yn y drefn. Dywedwyd bod posib esbonio unrhyw gamddealltwriaeth neu roi cyd-destun i gynnwys y gwyn mewn rhai achlysuron, os yw aelod yn ymwybodol bod cwyn wedi ei gwneud yn eu herbyn.

PENDERFYNIAD

Nodi'r wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:20yb

Cadeirydd